

## Adran 55 Derbyn Ceisiadau

### Rhestr Wirio Cais Adran 55<sup>1</sup>

Adran 55(2) Derbyn Ceisiadau					
1	O fewn 28 niwrnod (yn dechrau'r diwrnod ar ôl iddo gael y cais), rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu p'un ai derbyn y cais ai peidio.	Dyddiad derbyn	Dyddiad disgwyl 28 niwrnod	Dyddiad y penderfyniad	
		<b>1 Mehefin 2018</b>	<b>29 Mehefin 2018</b>	<b>28 Mehefin 2018</b>	
Adran 55(3) – caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dderbyn cais <u>dim ond</u> os yw ef neu hi yn dod i'r casgliad:-		<b>Sylwadau'r Arolygiaeth Gynllunio</b>			
<b>Adran 55(3)(a) ac adran 55(3)(c) Ei fod yn gais am orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu</b>					
2	<p>A yw'r datblygiad yn brosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol<sup>2</sup> (NSIP) (neu a yw'n ffurfio rhan o NSIP); ac a yw'r cais yn datgan, ar yr olwg gyntaf, ei fod yn gais am orchymyn caniatâd datblygu<sup>3</sup> (DCO) o dan Ddeddf Cynllunio 2008, neu eiriau cyfatebol? A yw'r cais yn nodi'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef (h.y. o fewn pa gategori neu gategoriâu yn adrannau 14-30 y mae cynllun y cais yn dod)?</p> <p>Os nad yw'r datblygiad yn dod o fewn y categorïau yn adrannau 14-30, a yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi cyfarwyddyd o dan adran 35 Deddf Cynllunio 2008 i'r datblygiad gael ei drin fel datblygiad y mae angen</p>	<p><b>Ydyw</b></p> <p>Mae'r datblygiad arfaethedig a amlinellir yn <b>Atodlen 1</b> y <b>DCO drafft</b> (DCOd) (<b>Dogfen 3.1</b>) yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP)), sef datblygiad sy'n dod o fewn categorïau a14 ac a15 Deddf Cynllunio 2008.</p> <p>Mae hyn yn gyson â'r crynodeb a roddwyd ym <b>Mlwch 4</b> y <b>Ffurflen Gais (Dogfen 1.1)</b> sy'n dod i'r casgliad bod y cais yn un ar gyfer NSIP.</p>			

<sup>1</sup> Mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon at yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynnwys cyfeiriadau (lle y bo'n berthnasol) at Gyfarwyddiaeth Ceisiadau a Chynlluniau Mawr yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n cyflawni swyddogaethau yn ymwneud â chaniatáu prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol

<sup>2</sup> Diffinnir NSIP yn gyffredinol yn adran 14 ac amlinellir y trothwyon manwl ar gyfer pob un o'r categorïau penodol yn adrannau 15-30

<sup>3</sup> Mae angen caniatâd datblygu ar gyfer datblygiad i'r graddau y mae'r datblygiad yn NSIP neu'n ffurfio rhan o NSIP (adran 31 Deddf Cynllunio 2008)

	caniatâd datblygu ar ei gyfer?	
<b>3</b>	<b>Crynodeb - adran 55(3)(a) ac adran 55(3)(c)</b>	<p>Mae <b>Blwch 4 y Ffurflen Gais (Dogfen 1.1)</b> yn cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi dangos bod y cais fel y'i cyflwynwyd yn gais ar gyfer gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008.</p> <p>Mae digon o dystiolaeth wedi cael ei rhoi i ddangos bod y cais yn NSIP yn unol ag Adrannau 14(1) a 15(2) Deddf Cynllunio 2008.</p>
<b>Adran 55(3)(e) Bod yr ymgeisydd, o ran y cais a gyflwynwyd, wedi cydymffurfio â Phennod 2 Rhan 5 (y weithdrefn cyn-ymgeisio)</b>		
4	Yn unol â'r Rheoliadau AEA <sup>4</sup> , a wnaeth yr ymgeisydd (cyn cynnal ymgynghoriad yn unol ag adran 42) naill ai (a) ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol roi barn sgrinio mewn perthynas â'r datblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef, neu (b) hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifenedig ei fod yn bwriadu darparu datganiad amgylcheddol mewn perthynas â'r datblygiad hwnnw?	<p>(a) <b>Na</b>, ni ofynnodd yr Ymgeisydd am farn sgrinio mewn perthynas â'r datblygiad.</p> <p>(b) <b>Do</b>, ar 23 Tachwedd 2009, cyn dechrau cam un yr ymgynghoriad a42 ar 28 Medi 2014.</p> <p>Cyflwynwyd ail adroddiad cwmpasu ar 19 Mawrth 2016 i sicrhau bod newidiadau i'r prosiect yn cael eu hystyried yn y broses gwmpasu. Cyflwynwyd atodiad i hwn ar 4 Mai 2016. (<b>Dogfen 6.11 Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol</b>).</p>
5	A dderbyniwyd unrhyw gynrychiolaethau digonolrwydd ymgynghori <sup>5</sup> gan awdurdodau "A", "B", "C" a "D"; os felly, a ydynt yn cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau o dan adran 42, adran 47 ac adran 48?	<p><b>Do</b></p> <p>Mae un awdurdod cynhaliol ("B"), sef Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor).</p> <p>Yn ei Gynrychiolaeth Digonolrwydd Ymgynghori (AoCR), cadarnhaodd y Cyngor fod yr Ymgeisydd wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan a42, a47 ac a48 Deddf Cynllunio 2008.</p> <p>Roedd y Cyngor yn pryderu am hyd Ymgynghoriad Cyn-ymgeisio Cam 3 (PAC3) yr Ymgeisydd a'r diffyg manylion a lluniadau technegol ar gyfer y campws ar y safle yn ystod PAC3. Er gwaethaf hyn, mae'r Cyngor yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi cydymffurfio ag a47 Deddf Cynllunio PA2008.</p>

<sup>4</sup> Rheoliad 8 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau AEA 2017), neu Rheoliad 6 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 (Rheoliadau AEA 2009) (lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol).

<sup>5</sup> Mae adran 55(4) Deddf Cynllunio 2008 yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr adroddiad ymgynghori, ac unrhyw gynrychiolaethau digonolrwydd ymgynghori a dderbyniwyd

	<p>Mae'r Cyngor yn datgan yn ei AoCR bod y diffyg manylion, cynlluniau a mesurau lliniaru yn Ymgynghoriad Cyn-ymgeisio Cam 2 (PAC2) yr Ymgeisydd yn golygu y bu'n anodd i'r Cyngor ymateb mor llawn ac mor ystyrlon i'r ymgynghoriad PAC2 a PAC3 ag y byddai wedi dymuno. Fodd bynnag, mae trafodaethau pellach â'r Ymgeisydd wedi galluogi'r Cyngor i wneud sylwadau ystyrlon a dylanwadu ar y prosiect, ac felly, mae'r Cyngor o'r farn bod yr Ymgeisydd wedi bodloni ei rwymedigaethau o dan a42 Deddf Cynllunio 2008.</p> <p>Mae'r AoCR wedi cael ei hystyried yn ofalus ac mae ar gael i'w gweld ar dudalen y <a href="#">prosiect</a> ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.</p>
--	--

#### Adran 42: Dyletswydd i Ymgynghori

	A wnaeth yr ymgeisydd ymgynghori â'r unigolion perthnasol a amlinellir yn adran 42 Deddf Cynllunio 2008 ynglŷn â'r cais arfaethedig?	
6	Adran 42(1)(a) unigolion rhagnodedig <sup>6</sup> ?	<p><b>Do</b></p> <p>Mae'r Ymgeisydd wedi darparu rhestr o unigolion yr ymgynghorwyd â nhw o dan a42(1)(a) ar 30 Awst 2016, 23 Mai 2017, ac 16 Ionawr 2018 yn <b>Atodiad D1 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>. Mae'r Atodiad wedi rhannu'r ymgynghoreion a42(1)(a) yn dri chategori.</p> <p>Tabl 1: Ymgynghoreion yr ymgynghorwyd â nhw yn unol ag adran 42          Tabl 2: Cynghorau Cymuned          Tabl 3: Ymgymerywyr statudol perthnasol</p> <p>Mae'r Arolygiaeth wedi sylwi nad yw'r rhestr o ymgynghoreion a ragnodir yn <b>Atodiad D1 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> yn cynnwys yr ymgynghoreion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</li> <li>• OFGEM</li> <li>• Fforwm Cydnerthedd Lleol Gogledd Cymru</li> <li>• E.ON UK Plc</li> </ul>

<sup>6</sup> Amlinellir ymgynghoreion statudol yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Wales and West Utilities Ltd</li> <li>• Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear. Er nad yw wedi'i restru'n ymgynghorai a ragnodir yn <b>Atodiad D1</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Doc 5.1)</b>, mae <b>paragraff 5.4.120</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> yn datgan bod Horizon wedi dechrau proses ymgysylltu â'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, sy'n awgrymu yr ymgynghorwyd ag ef yn ystod Cam 2.</li> </ul> <p>O ystyried amgylchiadau unigol yr achos hwn, a chan ddefnyddio ymagwedd ragofalus i sicrhau bod pawb y gallai'r cais effeithio arnynt, neu y gallent fod â buddiant ynddo, yn cael cyfle i gymryd rhan yn llawn wrth archwilio'r cais, mae'r Arolygiaeth yn awgrymu bod yr Ymgeisydd yn cynnwys y cyrff uchod ymhlith y rhai y bydd yn rhoi gwybod iddynt fod y cais wedi cael ei dderbyn o dan a56(2)(a) Deddf Cynllunio 2008, oni bai bod cyfiawnhad penodol dros beidio â gwneud hynny.</p> <p>Mae <a href="#">cyngor ar A51</a> wedi cael ei gyhoeddi ynglŷn â'r mater hwn.</p>
7	Adran 42(1)(aa) y Sefydliad Rheoli Morol <sup>7</sup> ?	<p><b>Do.</b></p> <p>Mae <b>Atodiad D1</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> yn datgan yr ymgynghorwyd â'r Sefydliad Rheoli Morol ar 30 Awst 2016 (Cam 2) a 23 Mai 2017 (Cam 3).</p>
8	Adran 42(1)(b) pob awdurdod lleol o fewn adran 43 <sup>8</sup> ?	<p><b>Do</b></p> <p>Mae'r Ymgeisydd wedi ymgynghori â Chyngor Sir Ynys Môn, sef yr unig awdurdod lleol perthnasol o fewn a43. Mae <b>Atodiad D1</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> yn datgan yr ymgynghorwyd ag ef ar 30 Awst 2016 (Cam 2) a 23 Mai 2017 (Cam 3).</p>
9	Adran 42(1)(c) Awdurdod Llundain Fwyaf (os yw yn ardal Llundain Fwyaf)?	Amherthnasol.

<sup>7</sup> O ran unrhyw achos lle y byddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r ardaloedd a nodir yn adran 42(2) Deddf Cynllunio 2008, neu a fyddai'n debygol o effeithio arnynt

<sup>8</sup> Dyma'r diffiniad o "awdurdod lleol" yn adran 43(3): Yr awdurdod "B" lle mae tir yr ymgeisydd o fewn ardal yr awdurdod; yr awdurdod "A" lle mae unrhyw ran o ffin ardal A hefyd yn rhan o ffin ardal B; yr awdurdod "C" (haen uwch) lle mae tir y cais o fewn ardal yr awdurdod hwnnw; yr awdurdod "D" lle mae awdurdod o'r fath yn rhannu ffin ag awdurdod "C"

10	Adran 42(1)(d) pob unigolyn o fewn un categori adran 44 neu fwy <sup>9</sup> ?	<p><b>Do</b></p> <p>Mae'r Ymgeisydd wedi ymgynghori â phob unigolyn o fewn un categori adran a44 neu fwy, fel y disgrifir yn <b>Adran 1.4.1 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>.</p>
<p><b>Adran 45: Amserlen ar gyfer Ymgynghoriad adran 42</b></p>		
11	A oedd yr ymgeisydd wedi hysbysu ymgynghoreion adran 42 o'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad; ac, os felly, a oedd y dyddiad cau a nodwyd gan yr ymgeisydd yn rhoi 28 niwrnod neu fwy iddynt ymateb, yn dechrau y diwrnod ar ôl iddynt dderbyn y dogfennau ymgynghori?	<p><b>Oedd</b></p> <p>Anfonwyd y llythyr dyddiedig 30 Awst 2016 ynglŷn ag ymgynghoriad cam 2 at ymgynghoreion a42, ac mae'n cadarnhau mai'r dyddiad cau ar gyfer ymateb oedd 25 Hydref 2016, sy'n fwy na 28 niwrnod ar ôl dyddiad y llythyr hysbysu a42 (<b>Atodiad B.6 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>).</p> <p>Anfonwyd rhai llythyrau a oedd yn cynnwys dyddiad ac eraill nad oeddent yn cynnwys dyddiad ar 22 Mai 2017 ynglŷn ag ymgynghoriad cam tri at ymgynghoreion a42, ac maen nhw'n cadarnhau mai'r dyddiad cau ar gyfer ymateb oedd 22 Mehefin 2017, sy'n fwy na 28 niwrnod ar ôl dyddiad y llythyr hysbysu a42 (<b>Atodiad C.6 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>). Mae'r copi enghreifftiol o'r llythyrau nad ydynt yn cynnwys dyddiad yn dangos eu bod yn datgan yn anghywir bod yr ymgynghoriad yn dechrau ar 24 Mehefin 2017, yn hytrach na 24 Mai 2017. Felly, aifonwyd llythyrau eraill i gywiro'r camgymediad hwn. Nid yw'r llythyrau enghreifftiol hyn yn cynnwys dyddiad ychwaith, ond mae'r Ymgeisydd yn datgan y'u hanfonwyd ar 23 Mai 2017, sef 28 niwrnod cyn diwedd yr ymgynghoriad.</p> <p>Mae'r Ymgeisydd yn esbonio yn <b>Adran 6.2.12 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> bod adolygiad a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cam tri wedi amlygu buddiannau tir ychwanegol a gynhwyswyd yn y DCO. Roedd camgymeriad hefyd o ran faint o amser a roddwyd i ymateb i'r ymgynghoriad, felly anfonwyd llythyrau ar 12 Mehefin 2017 yn cadarnhau mai'r dyddiad cau ar gyfer ymateb oedd 12 Gorffennaf, ac ar 14 Mehefin 2017 yn cadarnhau mai'r dyddiad cau ar gyfer ymateb oedd 14 Gorffennaf 2017, sy'n fwy na 28 niwrnod. Rhoddir copïau enghreifftiol o'r llythyrau hyn yn <b>Atodiad C.6 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>.</p>

<sup>9</sup> Categori 1: perchennog, deiliad prydles, tenant neu feddiannwr tir; Categori 2: unigolyn sydd â buddiant yn y tir neu sydd â'r pŵer i werthu a throsglwyddo'r tir neu ryddhau'r tir; Categori 3: unigolyn sydd â hawl i wneud hawliad perthnasol. Nid oes gofyniad i wirio cywirdeb y rhestr(au) na ph'un a yw'r ymgeisydd wedi gwneud ymholiadau diwyd

		Anfonwyd y llythyr dyddiedig 16 Ionawr 2018 ynglŷn ag ymgynghoriad ar dir ychwanegol at ymgynghoreion a42, ac mae'n cadarnhau mai'r dyddiad cau ar gyfer ymateb oedd 16 Chwefror 2018, sy'n fwy na 28 niwrnod ar ôl dyddiad y llythyr hysbysu a42. Rhoddir copiâu enghreifftiol o'r llythyrau hyn yn <b>Atodiad E.2</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> .
<b>Adran 46: Dyletswydd i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol o'r cais arfaethedig</b>		
12	A gyflenwodd yr ymgeisydd wybodaeth i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol o'r cais arfaethedig; ac, os felly, a gyflwynwyd y wybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y dyddiad y'i hanfonwyd at yr ymgynghoreion adran 42 neu cyn hynny? A wnaed hyn wrth ddechrau ymgynghori o dan adran 42 neu cyn hynny?	<p><b>Do</b></p> <p>Rhoddodd yr Ymgeisydd rybudd o dan a46 ar 31 Awst 2016, sef ar ddechrau neu cyn dechrau'r ymgynghoriad a42 ar 31 Awst 2016; ac ar 23 Mai 2017, sef ar ddechrau neu cyn dechrau'r ymgynghoriad a42 ar 24 Mai 2017.</p> <p>Mae copi o'r llythyr dyddiedig 31 Awst 2016 sy'n cynnwys rhestr o'r dogfennau ymgynghori a anfonwyd at yr Ysgrifennydd Gwladol wedi'i gynnwys yn <b>Atodiad B.1</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>, ac mae copi o'r llythyr dyddiedig 23 Mai 2017 sy'n cynnwys rhestr o'r dogfennau ymgynghori a anfonwyd at yr Ysgrifennydd Gwladol wedi'i gynnwys yn <b>Atodiad C.1</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>.</p>
<b>Adran 47: Dyletswydd i ymgynghori â'r gymuned leol</b>		
13	A baratôdd yr ymgeisydd ddatganiad ymgynghori â'r gymuned (SoCC) ynglŷn â sut yr oedd yn bwriadu ymgynghori â phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir?	<p><b>Do</b></p> <p>Lluniodd yr Ymgeisydd Ddatganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC) ym mis Medi 2014 a gyflenwir gyda'r cais (<b>Atodiad A.4</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>).</p> <p>Lluniwyd SoCC wedi'i ddiweddarau ym mis Ionawr 2016 ac fe'i cyflenwir gyda'r cais (<b>Atodiad B.5</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>).</p> <p>Diweddarwyd y SoCC ymhellach ym mis Mai 2017 ac fe'i cyflenwir gyda'r cais (<b>Atodiad C.5</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>).</p>
14	A ymgynghorwyd ag awdurdodau "B" a (lle y bo'n berthnasol) "C" ynglŷn â chynnwys y SoCC; os felly, a oedd y terfyn amser ar gyfer derbyn ymatebion yn rhoi 28 niwrnod, yn dechrau y diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd awdurdodau "B" a (lle y bo'n	<p><b>Do</b></p> <p>Anfonodd yr Ymgeisydd y SoCC drafft i Gyngor Sir Ynys Môn ('Awdurdod B') ar 8 Gorffennaf 2014 a phennodd ddyddiad cau o 15 Awst 2014 i gael ymateb. (<b>Atodiad A.1</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>).</p>

	berthnasol) “C” wedi derbyn y dogfennau ymgynghori?	<p>Anfonodd yr Ymgeisydd ail ddrafft y SoCC i'r Cyngor ('Awdurdod B') ar 22 Rhagfyr 2015. Ni phennodd yr Ymgeisydd ddyddiad cau, ond cynghorodd fod angen ymateb o fewn 28 niwrnod o dderbyn y cais am sylwadau. (<b>Atodiad B.2 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>).</p> <p>Anfonodd yr Ymgeisydd drydydd drafft y SoCC i'r Cyngor ('Awdurdod B') ar 10 Mawrth 2017 a phennodd ddyddiad cau o 10 Ebrill 2017 i gael ymateb. (<b>Atodiad C.2 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>).</p>
15	A yw'r ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw ymatebion a dderbyniwyd wrth baratoi'r SoCC?	<p><b>Ydyw</b></p> <p>Mae'r Ymgeisydd wedi esbonio yn <b>Nhabl 3-1 (SoCC 2014), Tabl 3.2 (SoCC 2016) a Thabl 3.3 (SoCC 2017) yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> sut mae'r ymatebion a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad ar y SoCC wedi cael eu hystyried. Mae enghreifftiau o hyn o'r SoCC cyntaf yn cynnwys egluro'r diffiniad o'r gymuned leol yn fanylach yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn, ychwanegu'r iaith Gymraeg at y rhestr o effeithiau posibl o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig, ac ychwanegu adran ar gyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â sut y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei hysbysebu.</p>
16	A sicrhawyd bod y SoCC ar gael i'w archwilio mewn ffordd sy'n gymharol gyfleus i bobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir; ac a gyhoeddwyd hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yng nghyffiniau'r tir yn datgan ble a phryd y gellir archwilio'r SoCC?	<p><b>Do</b></p> <p>Sicrhawyd bod y tri SoCC ar gael mewn llyfrgelloedd ledled Ynys Môn, Conwy a Gwynedd, yn ogystal ag yn swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, sy'n rhesymol gyfleus o ystyried lleoliad y cynllun. Roedd y tri SoCC ar gael ar wefan yr Ymgeisydd hefyd. Cyhoeddwyd hysbysiadau yn datgan pryd a ble y gellid eu harchwilio fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddwyd y SoCC cyntaf yn y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>Daily Post, 16 Medi 2014</li> <li>Holyhead and Anglesey Mail, 17 Medi 2014</li> <li>Caernafon and Denbigh Herald, 18 Medi 2014</li> <li>North Wales Chronicle, 18 Medi 2014</li> </ul> </li> </ul> <p>Rhoddir copiâu o'r hysbysiadau papur newydd yn <b>Atodiad A.3 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b></p>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyhoeddwyd yr ail SoCC yn y canlynol: Daily Post, 22 Ionawr 2016 North Wales Chronicle, 21 Ionawr 2016 Golwg, 22 Ionawr 2016</li> </ul> <p>Rhoddir copiâu o'r hysbysiadau papur newydd yn <b>Atodiad B.4 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyhoeddwyd y trydydd SoCC yn y canlynol: Daily Post, 26 Ebrill 2017 a 19 Mai 2017 Holyhead and Anglesey Mail, 26 Ebrill 2017 a 17 Mai 2017 North Wales Chronicle, 27 Ebrill 2017 Golwg, 27 Ebrill 2017</li> </ul> <p>Rhoddir copiâu o'r hysbysiadau papur newydd yn <b>Atodiad C.4 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b></p>
17	A yw'r SoCC yn nodi p'un a yw'r datblygiad yn ddatblygiad AEA <sup>10</sup> ; ac a yw'n amlinellu sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol ac ymgynghori arni?	<p><b>Ydyw</b></p> <p>Mae'r SoCC cyntaf (<b>Atodiad A.4 yr Adroddiad Ymgynghori, Dogfen 5.1</b>) yn nodi ar dudalen 4 bod y cynllun yn ddatblygiad AEA a sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu ymgynghori ar y wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol.</p> <p>Mae'r ail SoCC (<b>Atodiad B.5 yr Adroddiad Ymgynghori, Dogfen 5.1</b>) yn nodi ar dudalen 4 bod y cynllun yn ddatblygiad AEA a sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu ymgynghori ar y wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol.</p> <p>Mae'r trydydd SoCC (<b>Atodiad C.5 yr Adroddiad Ymgynghori, Dogfen 5.1</b>) yn nodi ar dudalen 5 bod y cynllun yn ddatblygiad AEA a sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu ymgynghori ar y wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol.</p>
18	A yw'r ymgeisydd wedi cynnal yr ymgynghoriad yn unol â'r SoCC?	<p><b>Ydyw</b></p> <p>Mae <b>Adran 3.4.17 i 3.4.29 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> yn rhoi tystiolaeth</p>

<sup>10</sup> Rheoliad 12 Rheoliadau AEA 2017, neu Reoliad 10 Rheoliadau AEA 2009 (lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol).



o'r ymgynghoriadau a gynhaliodd yr ymgeisydd yn unol â'r SoCC yn 2014, 2016 a 2017.

**Adran 48: Dyletswydd i roi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig**

19	<p>A roddodd yr ymgeisydd gyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig, o dan adran 48, yn y modd a ragnodir yn Rheoliad 4(2) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) (CFfGR) 2009?</p>	<p><u>Ymgynghoriad 2016</u></p> <p><b>Do</b></p> <p>Ni chyfeirir yn benodol at ymgynghoriad 2016 ym mhrif ran yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>, ond mae toriadau o hysbysiadau 2016 wedi'u darparu yn <b>Atodiad B (Adran B.7) yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b></p> <p><u>Ymgynghoriad 2017</u></p> <p><b>Do</b></p> <p>Mae'r Ymgeisydd wedi disgrifio papurau newydd a dyddiadau cyhoeddusrwydd a48 ym <b>Mharagraff 3.4.49 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> ac mae <b>Adran 6.7.1 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> yn manylu ar bapurau newydd a dyddiadau perthnasol y cyhoeddusrwydd a48, fel yr amlinellir isod.</p> <p>Darperir toriadau o'r hysbysiadau a48 a gyhoeddwyd yn 2017 yn <b>Atodiad C (Adran C.7) yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>.</p> <p><u>Ymgynghoriad 2018</u></p> <p><b>Do</b></p> <p>Mae'r Ymgeisydd wedi disgrifio papurau newydd a dyddiadau cyhoeddusrwydd a48 ym <b>Mharagraff 9.7.1 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>. Mae hyn hefyd yn manylu ar bapurau newydd a dyddiadau cyhoeddusrwydd a48 2018, fel yr amlinellir isod.</p> <p>Darperir toriadau o'r hysbysiadau a48 a gyhoeddwyd yn 2018 yn <b>Atodiad E (Adran E.4) yr Atodiadau i'r Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>.</p>	
		<b>Papur(au) newyddion</b>	<b>Dyddiad</b>
	am ddwy wythnos yn olynol o leiaf mewn un papur newydd lleol neu fwy sy'n cylchredeg yn y cyffiniau y	<p><u>Ymgynghoriad 2016</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Daily Post</li> </ul>	19 a 26 Awst 2016

byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael ei leoli ynddynt;	<u>Ymgynghoriad 2017</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Daily Post</li> </ul> <u>Ymgynghoriad 2018</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Daily Post</li> </ul>	12 a 19 Mai 2017 10 a 15 Ionawr 2018. Gydag anghysondeb; gweler blwch 21 isod.
unwaith mewn papur newydd cenedlaethol;	<u>Ymgynghoriad 2016</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>• The Guardian</li> </ul> <u>Ymgynghoriad 2017</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>• The Guardian</li> </ul> <u>Ymgynghoriad 2018</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>• The Guardian</li> </ul>	26 Awst 2016  20 Mai 2017  15 Ionawr 2018
unwaith yn Gazette Llundain ac, os yw'r datblygiad yn effeithio ar dir yn yr Alban, Gazette Caeredin; a	<u>Ymgynghoriad 2016</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>• London Gazette</li> </ul> <u>Ymgynghoriad 2017</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>• London Gazette</li> </ul> <u>Ymgynghoriad 2018</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>• London Gazette</li> </ul>	30 Awst 2016  19 Mai 2017  15 Ionawr 2018
lle mae'r cais arfaethedig yn ymwneud â datblygiad ar y môr – (i) unwaith yn Rhestr Lloyds; ac (ii) unwaith mewn cyfnodolyn masnach pysgota priodol?	<u>Ymgynghoriad 2016</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lloyds List</li> <li>• Fishing News</li> </ul> <u>Ymgynghoriad 2017</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lloyds List</li> <li>• Fishing News</li> </ul>	25 Awst 2016 1 Medi 2016  18 Mai 2017 19 Mai 2017

		<u>Ymgynghoriad 2018</u>			15 Ionawr 2018 11 Ionawr 2018
		<ul style="list-style-type: none"> <li>Lloyds List</li> <li>Fishing News</li> </ul>			
20	A oedd yr hysbysiad adran 48 yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol yn Rheoliad 4(3) y Rheoliadau CFfGR?	<b>Oedd</b> Darperir y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n ofynnol fel yr amlinellir isod, heblaw am (f), mewn perthynas â'r trydydd hysbysiad a48.			
	<b>Gwybodaeth</b>	<b>Paragraff</b>		<b>Gwybodaeth</b>	<b>Paragraff</b>
a)	Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd.	Paragraph 1	b)	Datganiad bod yr ymgeisydd yn bwriadu gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am ganiatâd datblygu	Paragraph 1
c)	datganiad ynghylch p'un a yw'r cais yn ddatblygiad AEA	Paragraph 8	d)	crynodeb o'r prif gynigion, gan nodi lleoliad neu lwybr y datblygiad arfaethedig	Paragraph 4
e)	datganiad bod y dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau sy'n dangos natur a lleoliad y datblygiad arfaethedig ar gael i'w harchwilio yn rhad ac am ddim yn y manau (gan gynnwys o leiaf un cyfeiriad yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig) ac ar yr amserau a nodwyd yn yr hysbysiad	Paragraph 12	f)	y dyddiad olaf y bydd y dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau hynny ar gael i'w harchwilio	Do, gydag anghysond eb; gweler blwch 21 isod.
g)	p'un a godir tâl am gopïau o unrhyw un o'r dogfennau, y cynlluniau neu'r mapiau, a swm unrhyw dâl	Paragraph 13	h)	manylion sut i ymateb i'r cyhoeddusrwydd	Paragraph 15
i)	terfyn amser ar gyfer derbyn yr ymatebion hynny gan yr ymgeisydd, nad yw'n llai na 28 niwrnod ar ôl dyddiad olaf cyhoeddi'r hysbysiad	Paragraph 16			

21	<p>A oes unrhyw arsylwadau mewn perthynas â'r hysbysiad adran 48 a ddarparwyd uchod?</p> <p>Ar gyfer ymgynghoriad 2018, nid yw'r hysbysiad a48 a gyhoeddwyd yn rhan o'r ymgynghoriad ar dir ychwanegol (<b>Atodiad E4</b>) yn datgan y dyddiadau pryd y mae'r dogfennau ar gael i'w gweld. Fodd bynnag, mae'n datgan ble y gellir eu gweld ac yn rhoi dyddiadau'r cyfnod ymgynghori.</p> <p>Ar gyfer ymgynghoriad 2018, ymddangosodd yr hysbysiad a48 (<b>Atodiad E4</b>) yn y Daily Post ar 10 a 15 Ionawr 2018. Er nad yw hyn yn bythefnos llawn, y dyddiad cau ar gyfer ymateb oedd 16 Chwefror 2018 ac anfonwyd llythyrau a42 at ymgynghoreion penodol yn amlinellu hyn, sy'n darparu cyfnod ymgynghori o fwy na 28 niwrnod.</p>	
22	<p>A anfonwyd copi o'r hysbysiad adran 48 at y cyrff ymgynghori AEA ac unrhyw unigolyn yr hysbyswyd yr ymgeisydd amdano yn unol â'r Rheoliadau AEA <sup>11</sup>?</p>	<p><b>Do</b></p> <p>Anfonwyd yr hysbysiad at y cyrff ymgynghori AEA ar 20 Gorffennaf 2017 ac ar 16 Ionawr 2018. Rhoddir copiâu o'r llythyrau perthnasol yn <b>Atodiad C (Adran C.6)</b> ac <b>Atodiad E (Adran E.4)</b>, yn ôl eu trefn.</p> <p>Mae'r Ymgeisydd wedi disgrifio dyddiadau'r cyhoedduswydd a48 ym <b>Mharagraff 9.7.2</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b>.</p>
<p><b>Adran 49: Dyletswydd i ystyried ymatebion i ymgynghori a chyhoedduswydd</b></p>		
23	<p>A yw'r ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw ymatebion perthnasol i'r ymgynghoriad adran 42, adran 47 ac adran 48?</p>	<p>Mae'r Ymgeisydd wedi amlinellu yn <b>Adrannau 4.6, 5.5 a 6.10</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> y camau a gymerwyd ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Mae'r Ymgeisydd hefyd wedi disgrifio yn <b>Atodiadau A8, B10 ac C10</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> yr ystyriaeth a roddwyd i'r ymatebion na arweiniodd at newid.</p> <p>Nid oedd yr ymgynghoriad tir statudol ychwanegol a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2018 wedi arwain at unrhyw newidiadau i'r cais arfaethedig. Mae <b>Adran 9</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> ac <b>Atodiad E9</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> yn amlinellu pam nad oedd yr ymgynghoriad tir ychwanegol wedi arwain at unrhyw newidiadau.</p> <p>Mae'n ymddangos bod y camau wedi'u hadlewyrchu yn ffurf derfynol y cais a gyflwynwyd, a lle nad yw ymateb wedi arwain at newid yn y cais, mae'n ddigon amlwg y rhoddwyd ystyriaeth iddo.</p>

<sup>11</sup> Rheoliad 13 Rheoliadau AEA 2017, neu Reoliad 11 Rheoliadau AEA 2009 (lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol).

<b>Arweiniad ynglŷn â'r weithdrefn cyn-ymgeisio</b>		
24	I ba raddau mae'r ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i arweiniad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) 'Deddf Cynllunio 2008: Arweiniad ar y broses cyn-ymgeisio' <sup>12</sup> ?	Mae <b>Pennod 3.3</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> yn esbonio sut mae'r Ymgeisydd wedi ystyried canllawiau'r DCLG ynglŷn â'r broses cyn-ymgeisio. Ar ôl adolygu'r cais, mae'n ymddangos bod yr Ymgeisydd wedi amlygu ac ystyried canllawiau perthnasol y DCLG.
<b>25</b>	<b>Crynodeb – adran 55(3)(e)</b>	Mae'r cais fel y'i cyflwynwyd gan yr Ymgeisydd wedi cydymffurfio â Phennod 2 Rhan 5 (gweithdrefn cyn-ymgeisio). Cydymffurfiwyd â'r holl ddyletswyddau perthnasol. Er bod rhai anghysondebau yn yr ymgynghoriad, rhoddwyd <a href="#">cyngor a51</a> i'r Ymgeisydd i'w cywiro.
<b>Adran 55(3)(f) ac Adran 55(5A) Bod y cais (gan gynnwys atodiadau) o safon foddhaol o ystyried i ba raddau y mae'n cydymffurfio ag adran 37(3) (ffurf a chynnwys cais) ac unrhyw safonau a osodwyd o dan adran 37(5) ac yn dilyn unrhyw arweiniad perthnasol o dan adran 37(4)</b>		
26	A yw wedi'i lunio gan ddilyn y ffurf ragnodedig a amlinellir yn Atodiad 2 y Rheoliadau CFfGR, ac a yw'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• datganiad byr sy'n esbonio pam mae'n dod o fewn cylch gorchwyl yr Ysgrifennydd Gwladol; a</li> <li>• datganiad byr sy'n nodi'n glir lleoliad safle'r cais, neu'r llwybr os yw'n gynllun llinol?</li> </ul>	<b>Ydyw</b> Mae <b>Blwch 4</b> y <b>Ffurflen Gais (Dogfen 1.1)</b> yn rhoi datganiad sy'n esbonio pam mae'r datblygiad o fewn cylch gorchwyl yr Ysgrifennydd Gwladol: Mae <b>Blwch 5</b> y <b>Ffurflen Gais (Dogfen 1.1)</b> yn rhoi disgrifiad annhechnegol byr o'r safle, ac mae <b>Blwch 6</b> yn rhoi lleoliad y cynnig. Mae <b>Terfyn y Gorchymyn (Dogfen 2.1)</b> yn dangos lleoliad y datblygiad arfaethedig.
27	A gyflwynwyd adroddiad ymgynghori gydag ef?	<b>Do</b> Mae'r cais yn cynnwys <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)</b> ac <b>Atodiadau i'r Adroddiad Ymgynghori A.1 – A8, B1 – B10, C1 – C10, D.1 – D.7 ac E.1 – E9 (Dogfen 5.1)</b> .

<sup>12</sup> Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi ystyriaeth i'r graddau y mae'r ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'r arweiniad a gyhoeddwyd o dan adran 50

28	Lle mae cynllun yn cynnwys tair dalen ar wahân neu fwy, a ddarparwyd cynllun allwedd sy'n dangos y berthynas rhwng y gwahanol ddalenni? <sup>13</sup>	<p><b>Do</b></p> <p>Darparwyd cynllun allwedd ar gyfer y cynlluniau canlynol sy'n cynnwys 3 dalen neu fwy: Cynlluniau Tir; Terfynau'r Gorchymyn; Cynlluniau Gwaith; Tirffurf Derfynol, dylunio draenio; Dyluniad draenio tirffurf adeiladu, Cadw Tirweddu, Gwaredu perthi; Gwaredu Coed a Pherthi.</p> <p>Mae'r cynllun allwedd Hawliau Tramwy yn ymdrin â'r cyfresi canlynol o gynlluniau sy'n cynnwys 3 dalen neu fwy: Hawliau Tramwy, diddymu a chau Hawliau Tramwy ar gyfer cynlluniau adeiladu; Hawliau Tramwy yn ystod adeiladu; Hawliau Tramwy ar gyfer cynlluniau gweithredu.</p> <p>Nid oes cynllun allwedd ar gyfer y cynlluniau canlynol sy'n cynnwys 3 dalen neu fwy: Cynllun safle presennol Llanfachraeth; Cynllun Trefniant Cyffredinol Llanfachraeth; Cynllun clirio safle arfaethedig Llanfachraeth; Cynllun draenio arfaethedig Llanfachraeth; Cynllun trefniant cyffredinol arfaethedig Cefn Coch; cynllun draenio arfaethedig Cefn Coch; Croestoriadau Safle Dalar Hir. Rhoddwyd <a href="#">cyngor Adran 51</a> i'r Ymgeisydd ynglŷn â hyn.</p>					
29	A gyflwynwyd y dogfennau a'r wybodaeth a amlinellir yn Rheoliad CFfGR 5(2) gydag ef?	<p><b>Do</b></p> <p>Mae'r dogfennau a'r wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad CFfGR 5(2) wedi'u hamlinellu yn y dogfennau a'r lleoliadau yn y cais fel y'u rhestrir isod:</p>					
<b>Gwybodaeth</b>		<b>Dogfen</b>		<b>Gwybodaeth</b>		<b>Dogfen</b>	
a)	Lle y bo'n berthnasol, y datganiad amgylcheddol sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau AEA <sup>14</sup> ac unrhyw farn neu gyfarwyddyd cwmpasu neu sgrinio	Crynodeb annhechnegol <b>Dogfen 6.11</b> ; Cyfrol A <b>Dogfennau 6.1.1-6.1.10</b> ; Cyfrol B <b>Dogfennau 6.2.1-6.2.22</b> ; Cyfrol C	b)	Y gorchymyn arfaethedig drafft	<b>Gorchymyn Caniatâd Datblygu (Dogfen 3.1)</b>		

<sup>13</sup> Rheoliad 5(4) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

<sup>14</sup> Rheoliadau AEA 2017, neu Reoliadau AEA 2009 (lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol)

		<p><b>Dogfennau 6.3.1-6.3.32;</b> Cyfrol D (<i>WNSA</i>) <b>Dogfennau 6.4.1-6.4.101;</b> Cyfrol E (<i>Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi ar y Safle</i>) (<b>Dogfennau 6.5.1-6.5.27;</b> Cyfrol F (<i>Parcio a Theithio</i>) <b>Dogfennau 6.6.1-6.6.38;</b> Cyfrol G (<i>A5025 Gwelliannau i'r Briffordd Nad Ydynt yn Dilyn Llinell Wreiddiol y Ffordd</i>) <b>Dogfennau 6.7.1-6.7.48;</b> Cyfrol H (<i>Canolfan Logisteg</i>) <b>Dogfennau 6.8.1-6.8.29;</b> Cyfrol I <b>Dogfennau 6.9.1-6.9.14;</b> a Chyfrol J <b>Dogfennau 6.10.1-6.10.3.</b></p>			
	A yw hwn o safon foddhaol?	<b>Ydy</b>		A yw hwn o safon foddhaol?	<b>Ydy</b>
c)	Memorandwm esboniadol yn esbonio diben ac effaith darpariaethau yn y gorchymyn drafft	<b>Memorandwm Esboniadol (Dogfen 3.3)</b>	d)	Lle y bo'n berthnasol, llyfr cyfeirio (lle mae'r cais yn ymwneud ag unrhyw gaffael gorfodol)	<b>Llyfr Cyfeirio (Dogfen 4.3)</b>
	A yw hwn o safon foddhaol?	<b>Ydy</b> Gyda rhai anghysondebau		A yw hwn o safon foddhaol?	<b>Ydy</b>

		(gweler Blwch 30)			
e)	Copi o unrhyw asesiad perygl llifogydd	<b>Dogfen Gyfeirio Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd Drosfwaol (Dogfen 5.5)</b>	f)	Datganiad ynghylch p'un a yw'r cynnig yn ymwneud ag un neu fwy o'r materion a amlinellir yn adran 79(1) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (niwsans statudol) ac, os felly, sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu eu lliniaru neu gyfyngu arnynt	<b>Datganiad Niwsans Statudol (Dogfen 5.3)</b>
	A yw hwn o safon foddhaol?	<b>Ydy</b>		A yw hwn o safon foddhaol?	<b>Ydy</b>
h)	Datganiad o resymau a datganiad ariannu (lle mae'r cais yn ymwneud ag unrhyw gaffael gorfodol)	<b>Datganiad Ariannu (Dogfen 4.2)</b>	i)	Cynllun tir sy'n amlygu'r canlynol:- (i) y tir sy'n ofynnol ar gyfer y datblygiad arfaethedig, neu y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio arno; (ii) lle y bo'n berthnasol, unrhyw dir y bwriedir arfer pwerau caffael gorfodol drosto neu unrhyw hawliau i ddefnyddio'r tir; (iii) unrhyw dir y bwriedir dileu hawddfrentiau, ymrwymadau caeth a hawliau preifat eraill mewn perthynas ag ef; ac (iv) ac unrhyw dir categori arbennig a thir cyfnewid	<b>Dogfen 2.2 Cynlluniau Tir</b> i) Yn cynnwys 5 dalen a chynllun allwedd yn ymwneud ag Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd, a chynlluniau ychwanegol yn ymwneud â'r rhannau eraill: A5025 Y Fali, A5025 Llanfachraeth, A5025 Llanfaethlu, A5025 Cefn Coch, Parcio a Theithio Dalar Hir, Canolfan Logisteg Parc CYBI a Safleoedd Digolledu Ecolegol Cors Gwawr, Cae Canol-Dydd a Thŷ



				<p>Du</p> <p>ii a iii) Mae'r cynlluniau'n cynnwys cod lliw i wahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o dir</p> <p>iv) Mae Cynllun Tir Categori Arbennig wedi'i gynnwys ar gyfer Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd</p>
	A yw hwn o safon foddhaol?	<b>Ydy</b>		<b>Ydy</b> , gyda rhai anghysondebau; gweler Blwch 30
j)	<p>Cynllun gwaith sy'n dangos, mewn perthynas â nodweddion presennol:-</p> <p>(i) lleoliad arfaethedig neu (o ran cynllun llinol) lwybr ac aliniad arfaethedig y datblygiad a'r gwaith;</p> <p>(ii) a'r terfynau ar gyfer cynnal y datblygiad a'r gwaith ac unrhyw derfynau gwyro a ddarperir yn y gorchymyn drafft</p>	<p><b>Dogfen 2.3 Cynlluniau Gwaith</b></p> <p>i) Yn cynnwys 5 dalen a chynllun allwedd yn ymwneud ag Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd, a chynlluniau ychwanegol yn ymwneud â'r rhannau eraill: A5025 Y Fali, A5025 Llanfachraeth, A5025 Llanfaethlu, A5025 Cefn Coch, Parcio a Theithio</p>	k)	<p>Lle y bo'n berthnasol, cynllun sy'n amlygu unrhyw ffordd fynediad newydd neu wedi'i newid, cau strydoedd neu ffyrdd neu unrhyw achosion o ddargyfeirio, diddymu neu greu hawliau tramwy neu hawliau mordwyo cyhoeddus</p> <p><b>Dogfen 2.4 Cynlluniau Hawliau Tramwy</b></p> <p>Yn cynnwys Hawliau Tramwy presennol (5 dalen a Chynllun Allwedd), cynlluniau Dileu a Chau ar gyfer adeiladu (5 dalen), Hawliau Tramwy yn ystod adeiladu (5 dalen), Hawliau Tramwy ar gyfer gweithredu (5</p>

		Dalar Hir, Canolfan Logisteg Parc CYBI a Safleoedd Digolledu Ecolegol Cors Gwawr, Cae Canol-Dydd a Thy Du  ii) Mae'r cynlluniau'n cynnwys y terfynau gwyro			dalen) ar gyfer Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd. Hefyd, cynlluniau ar wahân ar gyfer yr ardaloedd ersill a restrir yn y Cynlluniau Tir/Gwaith uchod
	A yw hwn o safon foddhaol?	<b>Ydy</b>		A yw hwn o safon foddhaol?	<b>Ydy</b>
l)	Lle y bo'n berthnasol, cynllun gyda gwybodaeth gysylltiedig sy'n amlygu:-  (i) unrhyw safleoedd neu nodweddion cadwraeth natur statudol/anstatudol e.e. safleoedd o bwysigrwydd daearegol/tirwedd;  (ii) cynefinoedd rhywogaethau a warchodir, cynefinoedd pwysig neu nodweddion bioamrywiaeth eraill; ac  (iii) ardaloedd dŵr mewn cynllun rheoli basn afon,  ynghyd ag asesiad o unrhyw effeithiau y mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o'u cael ar safleoedd, nodweddion, cynefinoedd neu ardaloedd o'r fath	Cynlluniau:  (i) <b>WDA - Dogfen 6.4.101</b> (Ffigurau D7-8; D9-1 i D9-11; D10-7 i D10-16; a D13-1, D13-5, D13-6, D13 i D19); <i>Safleoedd Digolledu Ecolegol - Dogfen 6.4.18</i> (Ffigurau 11 i 13; Ffigur 20); <i>Cyfleusterau Oddi ar y Safle - Dogfen 6.5.27</i> (Ffigurau E9-1; E10-2 ac E10-4); <i>Parcio a Theithio - Dogfen 6.6.38</i> (Ffigurau F9-1; F10-2 a F10-4);	m)	Lle y bo'n berthnasol, cynllun gyda gwybodaeth gysylltiedig sy'n amlygu unrhyw safleoedd neu nodweddion amgylchedd hanesyddol statudol/anstatudol (e.e. henebion cofrestredig, safleoedd Treftadaeth y Byd, adeiladau rhestredig, safleoedd archaeolegol a meysydd brwydr cofrestredig) ynghyd ag asesiad o unrhyw effeithiau y mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o'u cael ar safleoedd, nodweddion neu adeileddau o'r fath	<b>WDA - Dogfen 6.4.101</b> (Ffigurau D11-1 i D11-21) a <b>Dogfen 6.4.11</b> (asesiad).  <i>Safleoedd Digolledu Ecolegol - Dogfen 6.4.18</i> (cynlluniau ar Ffigurau 21-23).  <i>Cyfleusterau Oddi ar y Safle - Dogfen 6.5.27</i> (Ffigur E11-1) a <b>Dogfen 6.5.11</b> (asesiad).  <i>Parcio a Theithio - Dogfen 6.6.38</i> (Ffigur 11-1) a <b>Dogfen 6.6.11</b> (asesiad).  <i>Gwelliannau</i>

	<p><i>Gwelliannau</i>  <i>Priffyrdd - Dogfen</i>  <b>6.7.48</b> (Ffigurau G9-1 i G9-16); <i>Canolfan Logisteg - Dogfen</i>  <b>6.8.29</b> (Ffigurau H9-1; H10-2 a H10-4)</p> <p>(ii) <i>WNDA - Dogfen</i>  <b>6.4.101</b> (Ffigurau D9-1 i 9-11 ar gyfer daearol a D13-1,5,6,13-19 ar gyfer morol); Safleoedd Digolledu Ecolegol  <b>Dogfen 6.4.18</b> (Ffigurau 11 i 13); Cyfleusterau Oddi ar y Safle - <b>Dogfen 6.5.17</b>; Parcio a Theithio – <b>Dogfen 6.6.17</b>; <i>Gwelliannau Priffyrdd - Dogfen</i>  <b>6.7.48</b> (Ffigurau G9-1 i G9-16); <i>Canolfan Logisteg - Dogfen</i>  <b>6.8.17</b></p> <p>(iii) Asesiad o Gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD) - <b>Dogfen 8.26</b> (Ffigurau 1-3 yn dangos ardaloedd</p>		<p><i>Priffyrdd - Dogfen</i>  <b>6.7.48</b> (Ffigurau G11-1 i G11-11) a <b>Dogfen 6.7.11</b> (asesiad).</p> <p><i>Canolfan Logisteg - Dogfen 6.8.29</i> (Ffigur 11-1) a <b>Dogfen 6.8.11</b> (asesiad).</p>
--	---	--	---

		dyfrol y CFfD) a Gwybodaeth i Ategu Rhanddirymiad Erthygl 4(7) y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr <b>Dogfen 8.27</b>			
	A yw hwn o safon foddhaol?	<b>Ydy</b>		A yw hwn o safon foddhaol?	<b>Ydy</b>
n)	Lle y bo'n berthnasol, cynllun gydag unrhyw wybodaeth gysylltiedig sy'n amlygu unrhyw dir y Goron	<b>Dogfen 2.5 Cynllun Ystad y Goron</b>	o)	Unrhyw gynlluniau, lluniadau a thrychiadau eraill sy'n angenrheidiol i ddisgrifio'r cynnig ar gyfer caniatâd datblygu sy'n dangos manylion dylunio, golwg allanol, a gosodiad delfrydol adeiladau/adeileddau, draenio, rheoli dŵr wyneb, dull mynediad i gerbydau a cherddwyr, ac unrhyw le parcio a thirweddu	<b>Ydy</b> Mae Adran 23 y Ffurflen Gais ( <b>Dogfen 1.1</b> ) yn rhestru cynlluniau, lluniadau a thrychiadau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ategu'r cais
	A yw hwn o safon foddhaol?	<b>Ydy</b>		A ydynt o safon foddhaol?	<b>Ydy</b>
p)	Unrhyw un o'r dogfennau a ragnodir gan Reoliad 6 y Rheoliadau CFfGR:	Mae Adran 22 y Ffurflen Gais ( <b>Dogfen 1.1</b> ) yn datgan bod Datganiad Cysylltiad Grid ( <b>Dogfen 7.1</b> ) wedi cael ei gyflwyno yn unol â Rheoliad 6 y Rheoliadau CFfGR	q)	Unrhyw ddogfennau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ategu'r cais.	Mae Adran 23 y Ffurflen Gais ( <b>Dogfen 1.1</b> ) yn rhestru dogfennau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ategu'r cais
	A ydynt o safon foddhaol?	<b>Ydy</b>		A ydynt o safon foddhaol?	<b>Ydy</b>

30	<p>A oes unrhyw arsylwadau mewn perthynas â'r dogfennau a ddarparwyd uchod?</p> <p><b>Rheoliad 5(2)(i)</b></p> <p>Wrth adolygu'r <b>Cynlluniau Tir (Dogfen 2.2)</b>, rydym wedi amlygu'r anghysondebau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anghysondebau o ran y termau a ddefnyddir yn 'Allwedd' y Cynllun Tir o gymharu â'r disgrifiadau a ddefnyddir yn y <b>Llyfr Cyfeirio (Dogfen 4.3)</b></li> <li>• Nid yw'r allwedd yn gwahaniaethu rhwng llinellau dotiog, toredig a solet</li> <li>• Nid oes cyfeirnod llain ar ddalen 4 y cynllun tir i'r dwyrain o Lain 9 a amlygir fel DOSBARTH 1: TIR I'W GAFFAEL YN ORFODOL</li> <li>• Mae'r <b>Llyfr Cyfeirio (Dogfen 4.3)</b> Rhan 1, Colofn 3 yn darparu 'Disgrifiad o Dir' i amlygu lleiniau tir sydd i'w caffael yn orfodol. Nid yw'r tirnodau ac enwau'r ffyrdd a ddisgrifir yn y Llyfr Cyfeirio wedi'u hamlygu ar y <b>Cynlluniau Tir (Dogfen 2.2)</b>. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i: briffordd yr A5025, Gorsaf Betrol Tregele, Mynydd Ithel</li> <li>• Mae rhai o'r lleiniau ar y Cynlluniau Tir yn rhy fach i'w dehongli a byddent yn elwa o fewnosodiad, fel y gwelir ar gyfer llain 57 ar Ddalen 4 y Cynllun Tir.</li> </ul> <p><b>Memorandwm Esboniadol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai'r Memorandwm Esboniadol yn elwa o gyfiawnhad ychwanegol ynglŷn â pham mae dibyniaeth ar Ddarpariaethau Model mewn rhai manau yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol.</li> </ul> <p>Rhodddwyd <a href="#">cyngor a51</a> ynglŷn â'r mater hwn.</p>
31	<p>A yw'r cais yn cynnwys adroddiad sy'n amlygu unrhyw safle(oedd) Ewropeaidd y mae rheoliad 48 Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994 yn berthnasol iddo/iddynt; neu unrhyw safle(oedd) Ramsar y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio arno/arnynt, ynghyd â digon o wybodaeth a fydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud asesiad priodol o'r goblygiadau i'r safle os yw'n ofynnol gan reoliad 48(1)?<sup>15</sup></p> <p><b>Ydyw</b></p> <p>Darperir Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn yr <b>Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol (Dogfen 5.2)</b>.</p> <p>Mae'r adroddiad yn amlygu safleoedd Ewropeaidd perthnasol a'r effeithiau tebygol arnynt. Ystyrir bod y wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad yn ddigonol ar gyfer derbyn.</p> <p>Sylwer: bydd yr Awdurdod Archwilio yn gallu gofyn cwestiynau yn ystod yr archwiliad. Gallai hyn olygu bod angen gwybodaeth ychwanegol i lywio'r adroddiad HRA a'r awdurdod cymwys. Rhodddwyd <a href="#">cyngor a51</a> ynglŷn â'r pwynt hwn. Yn dibynnu ar y math o wybodaeth sy'n ofynnol ac i ba raddau y mae ar gael, mae'n bosibl na fydd modd cael gafael arni yn ystod amserlen statudol yr archwiliad.</p>

<sup>15</sup> Rheoliad 5(2)(g) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

32	Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn amdanynt, dau gopi papur o'r ffurflen gais a dogfennau a chynlluniau ategol eraill <sup>16</sup>	<b>Oes</b> Cyflenwyd dau gopi caled o'r cais.
33	A yw'r ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i arweiniad y DCLG 'Deddf Cynllunio 2008: Arweiniad ar lenwi ffurflen gais', ac a yw hyn wedi golygu bod y cais wedi cael ei baratoi i safon sy'n dderbyniol ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol?	<b>Ydyw</b> Mae'n ymddangos bod y cais yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Canllawiau, ac mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'r Canllawiau.
<b>34</b>	<b>Crynodeb – adran 55(3)(f) ac adran 55(5A)</b>	Mae'r Arolygiaeth Gynllunio o'r farn bod y cais a gyflwynwyd yn cyd-fynd yn gyffredinol â gofynion a55(3)(f) o ystyried a55(5A), ac yn dod i'r casgliad bod y cais o safon foddhaol ac y gellir ei dderbyn.  Er bod rhai materion wedi cael eu hamlygu yn y rhestr wirio, nid yw'r un ohonynt yn debygol o achosi anfantaes i unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan yn yr archwiliad. Rhoddwyd <a href="#">cyngor Adran 51</a> i'r ymgeisydd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion.
<b>Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ffioedd) 2010 (SI106)</b>		
<b>Ffioedd i gyd-fynd â chais</b>		
35	A dalwyd y ffi yr un pryd ag y cyflwynwyd y cais <sup>17</sup> ?	<b>Do</b> Derbyniwyd ffi'r cais cyn i'r cais gael ei gyflwyno ar 30 Mai 2018.

Llofnod Electronig	Enw	Dyddiad
<b>Arweinydd Achos</b>	<i>Kay Sully</i>	28 Mehefin 2018

<sup>16</sup> Rheoliad 5(2)(r) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

<sup>17</sup> Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol godi ffi ar yr ymgeisydd mewn perthynas â'r penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 55. Os na fydd yr ymgeisydd yn talu'r ffi, ni fydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried y cais hyd nes y bydd yn derbyn y taliad. Mae'n rhaid talu'r ffi yr un pryd ag y cyflwynir y cais.

<b>Arolygydd Derbyn</b>	<i>Frances Fernandes</i>	28 Mehefin 2018
-------------------------	--------------------------	-----------------

## Section 55 Acceptance of Applications

### Section 55 Application Checklist<sup>1</sup>

Section 55(2) Acceptance of Applications				
1	Within 28 days (starting day after receipt) the Secretary of State must decide whether or not to accept the application.	Date received	28 day due date	Date of decision
		<b>1 June 2018</b>	<b>29 June 2018</b>	<b>28 June 2018</b>
Section 55(3) – the Secretary of State may <u>only</u> accept an application if the Secretary of State concludes that:-		Planning Inspectorate Comments		
<b>s55(3)(a) and s55(3)(c) It is an application for an order granting development consent</b>				
2	Is the development a nationally significant infrastructure project <sup>2</sup> (NSIP) (or does it form part of an NSIP); and does the application state on the face of it that it is an application for a development consent order <sup>3</sup> (DCO) under the Planning Act 2008 (the PA2008), or equivalent words? Does the application specify the development to which it relates (i.e. which category or categories in ss14-30 does the application scheme fall)?  If the development does not fall within the categories in	<p><b>Yes</b></p> <p>The proposed development set out in <b>Schedule 1</b> of the <b>draft DCO (dDCO) (Doc 3.1)</b> is a Nationally Significant Infrastructure Project (NSIP)), which is a development falling within the categories in s14 and s15 of the PA2008.</p> <p>This is consistent with the summary provided in the <b>Application Form (Doc 1.1)</b> in <b>Box 4</b> which concludes that the application is for an NSIP.</p>		

<sup>1</sup> References in this document to the Secretary of State include references (where applicable) to the Planning Inspectorate Major Applications and Plans Directorate which carries out functions related to consenting nationally significant infrastructure projects on behalf of the Secretary of State

